# Dogfen ir Cyhoedd

Mr Dylan Williams
Prif Weithredwr – Chief Executive
CYNGOR SIR YNYS MÔN
ISLE OF ANGLESEY COUNTY COUNCIL
Swyddfeydd y Cygnor - Council Offices
LLANGEFNI
Ynys Môn - Anglesey
LL77 7TW

Ffôn / tel (01248) 752500
Ffacs / fax (01248) 750839

| RHYBUDD O GYFARFOD | NOTICE OF MEETING |
|---|---|
| **PANEL DETHOL Y PWYLLGOR SAFONAU** | **STANDARDS COMMITTEE SELECTION PANEL** |
| **DYDD MAWRTH 25 GORFFENNAF 2023 am 2:00 o'r gloch** | **TUESDAY 25 JULY 2023 at 2:00 pm** |
| **CYFARFOD HYBRID – YN YSTAFELL BWYLLGOR 1 AC YN RHITHWIR** | **HYBRID MEETING – VIRTUAL AND IN COMMITTEE ROOM 1** |

| Swyddog Pwyllgor | Mrs Shirley Cooke (01248) 752514 | Committee Officer |
|---|---|---|

**Yn cynrychioli'r Cyngor Sir/Representing the County Council**

Y Cynghorydd/Councillor Aled Morris Jones
Y Cynghorydd/Councillor Dylan Rees
Y Cynghorydd/Councillor Margaret M Roberts

**Yn cynrychioli'r Cynghorau Tref/Cymuned / Representing the Town/Community Councils**

Mr Gordon Warren

**Aelodau Annibynnol / Independent Members**

Dr Teleri Mair Jones

# A G E N D A

**1** **DATGANIAD O DDIDDORDEB**

Derbyn datganiad o ddiddordeb gan unrhyw Aelod neu Swyddog mewn perthynas ag unrhyw eitem of fusnes.

**2** **COFNODION** (Tudalennau 1 - 4)

Cyflwyno i'w cadarnhau, gofnodion drafft y cyfarfod o'r Panel a gynhaliwyd ar 6 Mehefin 2023.

**3** **CAU ALLAN Y WAS A'R CYHOEDD** (Tudalennau 5 - 6)

Ystyried mabwysiadu'r isod:-

"Dan Adran 100(A)(4) Deddf Llywodraeth Leol 1972, cau allan y wasg a'r cyhoedd o'r cyfarfod yn ystod y drafodaeth ar yr eitem ganlynol oherwydd y posibilrwydd y caiff gwybodaeth eithriedig ei datgelu fel y'i diffinnir yn Atodlen 12A y Ddeddf ac yn y Prawf Budd y Cyhoedd sydd ynghlwm".

**4** **PENODI AELOD ANNIBYNNOL I SWYDD WAG AR Y PWYLLGOR SAFONAU** (Tudalennau 7 - 38)

Cyflwyno adroddiad gan y Cyfarwyddwr Swyddogaeth (Busnes y Cyngor)/ Swyddog Monitro.

# PANEL DETHOL Y PWYLLGOR SAFONAU

## Cofnodion y cyfarfod a gynhaliwyd ar 6 Mehefin 2023

**PRESENNOL:** **Cynrychioli'r Cyngor Sir**

Cynghorydd Dylan Rees (Cadeirydd)

Cynghorydd Aled Morris Jones
Cynghorydd Margaret M Roberts

**Cynrychioli'r Cynghorau Tref/Cymuned**

Mr Gordon Warren

**Aelodau Annibynnol**

Dr Teleri M Jones

**WRTH LAW:** Cyfreithiwr (Llywodraethu Corfforaethol)
Swyddog Pwyllgorau (SC)

**YMDDIHEURIADAU:** Dim

---

**1. ETHOL CADEIRYDD**

Cafodd y Cynghorydd Dylan Rees ei ethol yn Gadeirydd hyd ddiwedd y broses benodi.

**2. DATGAN DIDDORDEB**

Ni dderbyniwyd yr un datganiad o ddiddordeb.

**3. PENODI AELOD ANNIBYNNOL NEWYDD I WASANAETHU AR Y PWYLLGOR SAFONAU**

Cyflwynwyd – adroddiad gan y Cyfarwyddwr Swyddogaeth (Busnes y Cyngor)/Swyddog Monitro ar yr uchod.

Adroddodd y Cyfreithiwr (Llywodraethu Corfforaethol) bod swydd wag ar y Pwyllgor Safonau, a bod angen rhoi proses benodi ar waith i benodi aelod newydd i'r Pwyllgor.

Adroddodd y Cyfreithiwr (Llywodraethu Corfforaethol) bod rhaid i'r Panel Dethol benderfynu ar y meini prawf ar gyfer y fanyleb person fel rhan o'r broses ymgeisio. Dywedodd mai'r meini prawf deddfwriaethol (Atodiad 1) yw'r gofyniad isaf a bod rhaid i unrhyw ymgeisydd fodloni'r rhain er mwyn

cael eu hystyried, er y gellid hefyd gweithredu gofynion ychwanegol fel meini prawf dewis lleol (mae enghreifftiau o feini prawf dewis lleol wedi eu cynnwys yn Atodiad 2).

Adroddodd y Cyfreithiwr (Llywodraethu Corfforaethol) y bydd y Panel yn sgorio'r ceisiadau ac yn meddwl am gwestiynau cyfweliad, yn erbyn y meini prawf. Yna bydd yr ymgeiswyr sy'n cyrraedd y rhestr fer yn cael eu gwahodd i gyfweliad gyda'r Panel.

Bu i'r Panel drafod yr opsiynau a oedd ar gael a chytunwyd i weithredu'r meini prawf deddfwriaethol yn unig ar gyfer y rôl (fel y manylir yn Atodiad 1 yn yr adroddiad).

**PENDERFYNWYD y byddai'r Panel Dethol yn mabwysiadu'r gofynion statudol fel meini prawf ar gyfer y broses ddethol.**

## 4. CYMERADWYO'R HYSBYSEB A'R GWAITH PAPUR AR GYFER RECRIWTIO AELOD ANNIBYNNOL NEWYDD I'R PWYLLGOR SAFONAU

Cyflwynwyd – adroddiad gan y Cyfarwyddwr Swyddogaeth (Busnes y Cyngor)/Swyddog Monitro ar yr uchod.

Nodwyd ei bod yn ofyniad cyfreithiol bod yr hysbyseb ar gyfer recriwtio unrhyw aelod annibynnol i'r Pwyllgor Safonau yn ymddangos mewn o leiaf dau bapur newydd lleol. Cyfeiriwyd at y penodiadau blaenorol yn 2017 a 2019 a nodwyd bod y swyddi gwag wedi cael eu hysbysebu ar wefan y Cyngor, Twitter, Facebook ac yn y North Wales Chronicle a'r Bangor & Anglesey Mail bryd hynny.

Rhoddodd y Cyfreithiwr (Llywodraethu Corfforaethol) grynodeb o'r prif benawdau yn yr adroddiad a'r atodiadau a rhoddodd drosolwg o'r wybodaeth gefndirol i ymgeiswyr (sydd ar gael yn Atodiad 2.1) a'r ffurflen (sydd ar gael yn Atodiad 2.4). Bu i'r Panel drafod yr opsiynau a oedd ar gael mewn perthynas â hysbysebu'r swydd a'r gost o wneud hynny. Cytunodd y Panel i hysbysebu'r swydd mewn dau bapur newydd lleol, a darparu dolen i'r ffurflen gais a phapurau cefndirol, yn ogystal â hyrwyddo'r swydd ar wefan a thudalennau Facebook a Twitter y Cyngor.

**PENDERFYNWYD:-**

- **Cymeradwyo'r dogfennau drafft yn Atodiad 1, a chynnwys y gofynion statudol yn unig.**
- **Awdurdodi'r Cyfarwyddwr Swyddogaeth (Busnes y Cyngor) / Swyddog Monitro i ddiwygio'r gwaith papur i adlewyrchu unrhyw benderfyniad mewn perthynas ag Eitem 3 ar yr agenda hwn.**
- **Hysbysebu'r swydd wag ar gyfer aelod annibynnol o'r Pwyllgor Safonau mewn dau bapur newydd, a hefyd ar wefan a chyfrifon cyfryngau cymdeithasol y Cyngor.**

5. **CAU ALLAN Y WASG A'R CYHOEDD**

**PENDERFYNWYD mabwysiadu'r isod:-**

**"Dan Adran 100(A)(4) Deddf Llywodraeth Leol 1972, cau allan y wasg a'r cyhoedd o'r cyfarfod yn ystod y drafodaeth ar yr eitem ganlynol oherwydd y posibilrwydd y caiff gwybodaeth eithriedig ei ddatgelu fel y'i diffinnir yn Atodlen 12A y Ddeddf ac yn y Prawf Budd y Cyhoedd sydd ynghlwm."**

6. **CWESTIYNAU POSIB AR GYFER Y CYFWELIADAU I BENODI AELOD ANNIBYNNOL I WASANAETHU AR Y PWYLLGOR SAFONAU**

Cyflwynwyd- adroddiad gan y Cyfarwyddwr Swyddogaeth (Busnes y Cyngor) / Swyddog Monitro a oedd yn gofyn i'r Panel ystyried a chytuno ar gwestiynau cyfweliad addas, o'r meini prawf a fabwysiadwyd, ar gyfer yr ymgeiswyr a fydd yn cyrraedd y rhestr fer.

Roedd rhestr o gwestiynau cyfweliad posib ar gael yn Atodiad 1 yn yr adroddiad. Adroddodd y Cyfreithiwr (Llywodraethu Corfforaethol) y bydd y Panel yn cael cyfle i ddiwygio'r cwestiynau cyfweliad yng nghyfarfod nesaf y Panel Dethol.

**PENDERFYNWYD:-**

- **Ystyried y cwestiynau cyfweliad drafft a gyflwynwyd ar gyfer yr ymgeiswyr, yng nghyfarfod nesaf y Panel Dethol.**
- **Rhoi caniatâd i'r Panel ychwanegu at / ddiwygio'r cwestiynau cyfweliad terfynol yng nghyfarfod nesaf y Panel.**
- **Y bydd y Cyfreithiwr (Llywodraethu Corfforaethol) yn trefnu dyddiad ar gyfer cyfarfod nesaf y Panel i ystyried y ceisiadau a dderbynnir a llunio rhestr fer.**

Daeth y cyfarfod i ben am 2:15 pm

**CYNGHORYDD DYLAN REES**
**CADEIRYDD**

This page is intentionally left blank

# PRAWF BUDD Y CYHOEDD
# PUBLIC INTEREST TEST

**Penodi Aelod Annibynnol i Swydd Wag ar y Pwyllgor Safonau /**
**Appointment of Independent Member to a Vacant Seat on the Standards Committee**

| | |
|---|---|
| Paragraffau 12 ac 13 Atodlen 12A Deddf Llywodraeth Leol 1972<br>Paragraphs 12 and 13 Schedule 12A Local Government Act 1972 | |
| Y PRAWF – THE TEST | |
| **Mae budd i'r cyhoedd o ddatgelu oherwydd** / There is a public interest in disclosure as:- | **Y budd i'r cyhoedd with beidio datgelu yw** / The public interest in not disclosing is:- |
| • **Mae angen a disgwyliad am dryloywder wrth benodi aelodau cyfetholedig i'r Pwyllgor Safonau oherwydd y rôl arwyddocaol sydd gan y Pwyllgor mewn perthynas â llywodraethiant ac ymddygiad cynghorwyr sir etholedig a chynghorwyr y cynghorau tref a chymuned**.<br><br>• There is a requirement for and expectation of transparency in the appointment of co-opted members to the Standards Committee, given the significant role played by the Committee in relation to governance and conduct of elected county councillors and town and community councillors. | • **Mae disgwyliad rhesymol gan ymgeiswyr y bydd eu ffurflenni cais a'u hasesiadau'n cael eu trin yn gyfrinachol ac y bydd eu cyfweliadau'n cael eu cynnal yn breifat. Mae'n bosib y gellid cymryd camau am beidio â chwrdd â'r fath ddisgwyliad rhesymol i barchu cyfrinachedd**.<br><br>• **Mae'n rhesymol disgwyl y gallai cyhoeddi neu ddatgelu ffurflenni cais fynd yn groes i ddisgwyliadau rhesymol yr ymgeiswyr am gyfrinachedd. Mae'n debygol y byddai cynnal proses ddethol sy'n hollol gyhoeddus yn niweidiol oherwydd mae'n rhesymol i ystyried y byddai'n arwain at lai o ymgeiswyr, os o gwbl, yn ymgeisio am swyddi yn y dyfodol**.<br><br>• **Cydnabyddir fod y Panel wedi ei benodi i ymgymryd â rôl sicrwydd ar ran y Cyngor a'r cyhoedd ac, ar ôl dilyn y broses briodol, bydd yn gwneud ei argymhellion i'r Cyngor llawn a fydd yn cymeradwyo'r penodiadau terfynol. Er y bydd manylion am y penodiadau terfynol yn cael eu cyhoeddi**, nid yw datgelu gwybodaeth am ymgeiswyr ac |

| | |
|---|---|
| | ymgeiswyr aflwyddiannus yn cefnogi'r budd cyhoeddus.<br><br>• There is a reasonable expectation of confidentiality by the applicants that their application forms, assessments and interviews will be conducted in private. A breach of such a reasonable expectation of confidence is potentially actionable.<br><br>• Publication and disclosure of applications would be contrary to the reasonable expectations of the confidentiality of the candidates. A wholly public selection process is likely to be detrimental as it might reasonably result in fewer, or no, candidates applying for future vacancies.<br><br>• It is recognised that the Panel has been appointed to undertake the assurance role on behalf of the Council and the public and, following due process, will make its recommendations to full Council which will ratify the final appointments. Whilst the final appointments will be made public, the public interest is not served by disclosure of information about applicants and unsuccessful applicants.<br><br>• |

**Argymhelliad** - Mae'r budd i'r cyhoedd wrth gadw'r eithriad o bwys mwy na'r budd i'r cyhoedd a ddeuai yn sgil datgelu'r wybodaeth.
**Recommendation** - The public interest in maintaining the exemption outweighs the public interest in disclosing the information.

Document is Restricted

This page is intentionally left blank